

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Sanclêr i Gaerfyrddin, Sir
Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau
Traffig Dros Dro) 2021

The A40 Trunk Road (St Clears to
Carmarthen, Carmarthenshire)
(Temporary Traffic Prohibitions)
Order 2021

Gwnaed 11 Mehefin 2021
Yn dod i rym 16 Mehefin 2021

Made 11 June 2021
Coming into force 16 June 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Sanclêr i Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 16 Mehefin 2021.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (St Clears to Carmarthen, Carmarthenshire) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2021 and this Order comes into force on 16 June 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 London to Fishguard trunk road;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 18:00 o’r gloch ar 16 Mehefin 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ganiatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, droi i’r dde drwy’r bylchau yn y llain ganol ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

11 Mehefin 2021

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o ffordd ymuno tua’r dwyrain yr A40 yn Sanclêr sy’n ymestyn o’i chyffordd â Heol y Pentre hyd at drwyniad y prif gerbyttfordd tua’r dwyrain.

ATODLEN 2

Gwahardd Troi i’r Dde Dros Dro

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o Gylchfan Sanclêr hyd at Gylchfan Caerfyrddin yn Sir Gaerfyrddin.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 18:00 hours on 16 June 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to make a right hand turn through the central reservation gaps in the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

Application

5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the

11 June 2021

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the A40 eastbound entry slip road at St Clears that extends from its junction with Pentre Road to the nosing of the main eastbound carriageway.

SCHEDULE 2

Temporary Prohibition of Right Hand Turns

The length of the trunk road that extends from St Clears Roundabout to Carmarthen Roundabout in Carmarthenshire.

